Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y swydd: | Swyddog Cymunedol Chwaraeon | Lleoliad: | Caerdydd a'r Fro |
| Adran: | Chwaraeon | Cyflog: | Gweithredol 3: £25,690 - £28,006 y flwyddyn |
| Oriau Gwaith: | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | Cytundeb: | Parhaol |
| Yn adrodd i: | Rheolwr Rhanbarthol Chwaraeon | Rheolaeth Llinell: | Dim |

Prif bwrpas y swydd:

Nod y swydd fydd cynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn gweithgaredd a chlybiau chwaraeon o fewn ysgolion a'r gymuned, drwy gyfrwng y Gymraeg. Gweithio tuag ar targedau heriol yr adran.

---

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Darparu a datblygu darpariaeth chwaraeon wythnosol gan weithio at dargedau penodol sydd wedi sefydlu ar gyfer yr ardal, gan gynnwys ar benwythnosau a gwyliau Ysgol.
2. Datblygu cynlluniau marchnata proffesiynol ac amserol i hysbysebu darpariaeth chwaraeon y rhanbarth.
3. Gweithio i dargedau heriol er mwyn datblygu ein gwasanaethau i gynulleidfa newydd.
4. Gyfrifol am fwrw targedau ariannol a darganfod a chwblhau ffynonellau grant ar gyfer ariannu clybiau / gweithgareddau Chwaraeon.
5. Cymryd cyfrifoldeb dros iechyd, diogelwch a lles bawb sydd yn ymwneud a'r gweithgareddau.
6. Gyfrifol am ymweld, asesu safon a llogi lleoliadau ar gyfer Gweithgareddau Chwaraeon a chwblhau asesiadau risg i gyd fynd a'r clybiau.
7. Datblygu hyfforddwyr a gwirfoddolwyr yn yr adran.
8. Cyfarfod a chydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu chwaraeon yn yr ardal.
9. Bydd cyfrifoldeb ar dargedu darpariaeth yn y canlynol; ardaloedd difreintiedig, chwaraeon i ferched, clybiau teulu a chwaraeon cynhwysol. Bydd targedau pendant er mwyn cyd fynd a nodau ac amcanion yr Urdd a Chwaraeon Cymru.
10. Gweithio ar y cyd gyda swyddog digwyddiadau'r ardal i drefnu cynlluniau Gweithgareddau Gwyliau a digwyddiadau.

## Manyleb y person a’r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae’n rhaid llenwi’r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae’n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â’r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| Hanfodol: | Dymunol: |
|---|---|
| 1. Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char, neu’r gallu i deithio’n gwbl hyblyg ac annibynnol er mwyn cyflawni’r swydd hon.<br>2. Bydd hi’n angenrheidiol gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg er mwyn cyflawni’r swydd hon.<br>3. Bydd Prentisiaeth neu Cymwysterau yn y maes chwaraeon yn hanfodol.<br>4. Profiad o drefnu a darparu clybiau llwyddiannus.<br>5. Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc a hyfforddi.<br>6. Sgiliau cyfathrebu da a phrofiad siarad gydag ystod eang o bobl (Rhieni, plant a.y.b.)<br>7. Bod yn barod i weithio oriau hyblyg gan gynnwys gyda’r nos a phenwythnosau. | 1. Dealltwriaeth o nod ac amcanion Urdd Gobaith Cymru.<br>2. Profiad o weithio i dargedau heriol. |

Newidiadau i’r Swydd Ddisgrifiad: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Medi 2024 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

Gwiriadau Perthnasol:

Bydd yn ofynnol i’r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).